

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talylychau yn Eglwys San Mihangel nos Fawrth, 6 Gorffennaf 2021, am 8 p.m.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Marged Bowen (Is-gadeirydd, yn y Gadair), Janine Roberts, Pauline George, John Williams, Rhys Williams o 8.30 p.m., Y Cynghorydd Sir Joseph Davies a Jane Morgan (Clerc). Hefyd yn bresennol yr oedd y Ficer, y Parch. Tim Nelson. Cafwyd ymddiheuriadau gan Steve Haines.

Datganiad o Fuddiant. Rhys Williams – Eitem 10, Cynllunio.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Materion yn codi o gofnodion 4 Mai 2021 a 22 Mehefin 2021.

Yr Hen Onnen. Yn dilyn ein gohebiaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin a'i ymateb yn gofyn i ni anfon llun o'r Onnen yn ei dail llawn (mis Awst), trafodwyd copi o'r ohebiaeth a anfonwyd at Gyngor Sir Caerfyrddin gan Gymdeithas Amwynder Cymunedol Talylychau, a'r ateb a ddaeth i law. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin am ddarganfod pwy oedd perchennog y llain o dir lle'r oedd y goeden. Cytunwyd y byddai Cynghorwyr yn cymryd golwg ac yn adrodd yn ôl.

Y Cae Cymunedol. Roedd cwmni Western Power wedi bod allan ac wedi torri brig y goeden a oedd yn tyfu'n agos iawn at y ceblau trydan. Cytunwyd i gadw golwg ar y goeden gan y byddai'n tyfu'n uwch eto. Cytunwyd i gynnal cyfarfod safle arall ar y Cae Cymunedol am 7 p.m. cyn ein cyfarfod arferol am 7:30 p.m. ar 7 Medi 2021.

Diffibrilwyr. Ychydig cyn y cyfyngiadau symud, cytunwyd i gysylltu â chwmni Cariad a oedd wedi gosod y Diffibrilwyr, i gynnal sesiynau hyfforddi pellach. Yn anffodus, ni chafwyd ymateb, ac yna, oherwydd y cyfyngiadau symud, ni fyddai'n bosibl cynnal hyfforddiant. Yn dilyn trafodaeth bellach, ynghyd â gohebiaeth a gafwyd gan aelod o'r gymuned, cytunwyd i wneud ymholiadau pellach ynghylch hyfforddiant. Os na fyddai ateb yn dod i law gan Cariad, yna byddai'r clercc yn cysylltu â'r GIG. Diolchodd y Cadeirydd i Wyn Edwards am wirio a glanhau'r ddau Ddiffibriliwr yn y pentref.

Siec wedi cael ei phrosesu'n anghywir – camgymeriad y banc. Dywedodd y clercc, o ganlyniad i'r camgymeriad a wnaed, bod y banc wedi talu £25 i gyfrif banc y Cyngor.

Byddai Hysbysiad o'r Archwiliad yn cael ei roi ar y ddau hysbysfwrdd ac ar y wefan erbyn 6 Awst 2021.

Ethol Swyddogion 2021-22. Cytunwyd y dylid ethol Marged Bowen yn Gadeirydd. Diolchodd Marged Bowen i bawb am eu cefnogaeth. Cytunwyd y dylid ethol Steve Haines yn Is-gadeirydd. Gan nad oedd Steve yn bresennol, cytunwyd y byddai'r Clercc yn cysylltu â Steve ac yn gofyn iddo a fyddai'n derbyn swydd yr Is-gadeirydd.

Y gyfriflen banc ddiweddaraf a cheisiadau am dâl. Balans y cyfrif ar 22.06.2021 oedd £7,932.33.

Cytunwyd i dalu'r canlynol. Cyflog y Clercc: £177.23, CThEM: £44.40, M & J Maintenance, yn masnachu dan yr enw Grave Concerns (torri glaswellt y fynwent ym mis Mehefin) £600, Cyngor Eglwys Plwyf Talylychau £10.00 (llogi'r Eglwys ar gyfer cyfarfodydd). Gan na fyddai'r cyngor yn cwrdd ym mis Awst, cytunwyd i wneud y taliadau canlynol ar 3 Awst: Cyflog y Clercc: £177.23, CThEM: £44.40, M & J Maintenance, yn masnachu dan yr enw Grave Concerns (torri glaswellt y fynwent ym mis Gorffennaf) £600, ar ôl i'r Cadeirydd archwilio'r fynwent.

Penodi llofnodwyr ychwanegol ar gyfer y cyfrifon. Cytunwyd y byddai Pauline George, Rhys Williams a Steve Haines yn cael eu hychwanegu.

Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post a gohebiaeth a anfonwyd trwy e-bost.

Roedd cerdyn o ddiolch wedi dod i law gan Gylch Meithrin Llansawel am y rhodd a gafwyd.

Enwebu Is-gynrychiolydd i'r Awdurdod. Penodwyd un Llywodraethwr Cymunedol ychwanegol i'r Corff Llywodraethu newydd ar gyfer ffederasiwn ysgolion Cwrt Henri, Ffairfach a Thalylychau.

Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned. Bydd arnynt angen enwau a chyfeiriadau e-bost aelodau'r Cyngor a oedd yn dymuno bod yn bresennol erbyn 12 Gorffennaf 2021. 21.07.2021 – 2 p.m. 22.07.2021 – 6.30 p.m.

Roedd y cylchgrawn *Clerks & Councils Direct* wedi dod i law.

Anfonwyd y canlynol at y Cynghorwyr trwy neges e-bost i'w harchwilio a'u trafod yng nghyfarfod mis Medi. Y Rheolau Sefydlog, y Rheoliadau Ariannol, yr Asesiad Risg, y Cod Ymddygiad.

Cynllunio.

Datganodd Rhys Williams fuddiant a gadawodd y cyfarfod. Ni chymerodd y Cynghorydd Sir Joseph Davies ran yn y drafodaeth ar y ceisiadau canlynol:

PL/02030 – Cadw parlwr godro yn y modd y'i hadeiladwyd – Glan Yr Afon Ddu Ganol, Cwm-du, SA19 7DR.

Ni wnaed unrhyw sylwadau.

PL/02031 – Cadw adeilad amaethyddol yn y modd y'i hadeiladwyd – Glan Yr Afon Ddu Ganol, Cwm-du, SA19 7DR.

Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Ailymunodd Rhys Williams â'r cyfarfod.

Toiledau Cyhoeddus. Roedd y Ficer, y Parch. Tim Nelson, wedi gofyn am ganiatâd i annerch y Cyngor, a chytunwyd ar hyn. Dywedodd fod gan yr Eglwys ddiddordeb mewn cymryd cyfrifoldeb am y toiledau cyhoeddus a'i bod yn gofyn am gymorth ariannol gan y Cyngor. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn cynnig cymorth.

Mynwent Eglwys y Plwyf. Perchnogaeth – ar ôl i Marged Bowen, y Cadeirydd, edrych ar ddogfennau a oedd gan y Cyngor ynghylch perchnogaeth y fynwent. Cafodd neges e-bost wrth Marged ei dosbarthu i'r holl Gynghorwyr a'i thrafod. Cytunwyd y byddai angen cynnal ymchwiliadau pellach i wneud y sefyllfa'n gliriach. Cytunwyd y byddai'r Ficer, y Parch. Tim Nelson, yn gwneud ymholiadau i weld a fyddai'n gallu dod o hyd i unrhyw wybodaeth arall am berchnogaeth.

Penodi Clerc y Fynwent. Gan nad oedd gan Glerc y Cyngor Cymuned nac unrhyw un o'r Cynghorwyr a oedd yn bresennol ddiddordeb mewn cymryd rôl Clerc y Fynwent, cafwyd trafodaeth ynghylch hysbysebu. Gan nad oedd gan unrhyw un o'r Cynghorwyr ddiddordeb, cytunwyd y byddai taliad o £20 yn cael ei wneud am bob angladd. Cynigiwyd y dylid cynnig y rôl i'r ddau Gynghorydd nad oeddent yn bresennol, yn y lle cyntaf, ac os nad oedd ganddynt ddiddordeb, dylai'r Ficer wedyn fynd at aelodau'r Eglwys i weld a oedd ganddynt ddiddordeb, cyn hysbysebu ymhellach. Cytunwyd i wneud hyn.

Unrhyw faterion eraill.

Cynigiwyd a chytunwyd y byddai cais yn cael ei wneud i Gyngor Sir Caerfyrddin i baentio llinellau melyn dwbl y tu allan i dai yn Nyffryn Ig.

Cynigiwyd a chytunwyd y byddai'r Clerc yn gwneud ymholiadau ynghylch gosod goleuadau cyflymder sy'n fflachio ar bob pen i'r pentref.

Nid oedd unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 10.10 p.m.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 7 Medi 2021 am 7.30 p.m., yn dilyn cyfarfod safle yn y Cae Cymunedol am 7 p.m.